# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Hysbysu'r cyhoedd am sgoriau hylendid bwyd*

## 8 Ceisiadau am wybodaeth am sgoriau hylendid bwyd

(1) Rhaid i weithredwr sefydliad busnes bwyd sicrhau bod pob cyflogai perthnasol yn ymwybodol o sgôr hylendid bwyd y sefydliad.

(2) Rhaid i'r gweithredwr ac unrhyw gyflogai perthnasol gydymffurfio â chais a gyfeirir atynt gan berson i gael ei hysbysu ar lafar am sgôr hylendid bwyd y sefydliad.

(3) Yn yr adran hon, ystyr "cyflogai perthnasol" yw rhywun sydd—

(a) yn cael ei gyflogi yn y sefydliad, a

(b) yn debygol, ym marn y gweithredwr, o fod yn wrthrych cais i hysbysu person ar lafar am sgôr hylendid bwyd y sefydliad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 8 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(f)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 8.